Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales



CYFRES MEWNWELEDIAD

# Lles Arweinwyr Ysgolion
# Arolwg Cenedlaethol

agaa.cymru | nael.cymru

# Canfyddiadau Allweddol

## 1. Cyd-destun

Mae Cynllun Corfforaethol yr Academi Genedlaethol ar gyfer Arweinyddiaeth Addysgol Cymru (yr Academi Arweinyddiaeth) yn nodi ymrwymiad y sefydliad i helpu i greu system addysg Cymru lle bydd **"lles arweinwyr addysgol yn cael blaenoriaeth a chefnogaeth systematig"**. Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, mae'r Academi Arweinyddiaeth yn gweithio gyda phartneriaid i ddatblygu Strategaeth Cymru Gyfan ar gyfer Lles Arweinwyr Addysgol.

I lywio'r gwaith hwn, cynhaliodd yr Academi Arweinyddiaeth arolwg cenedlaethol o arweinwyr ysgolion yn ystod haf 2020. Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r canfyddiadau allweddol yn yr arolwg.

Bydd arolygon pellach o arweinwyr mewn sectorau addysgol eraill, gan gynnwys addysg ieuenctid a phellach, yn dilyn yn hwyrach yn 2020 a 2021.

## 2. Arolwg

Roedd yr arolwg[1] ar agor i arweinwyr ysgolion[2] ledled Cymru rhwng 15 Mai a 5 Mehefin 2020.

Cafwyd 1019 ymateb i'r arolwg. Fodd bynnag, mae'r dadansoddiad sy'n dilyn yn seiliedig ar 986 o'r rhain gan y tybiwyd nad oedd 9 ohonynt gan arweinwyr a oedd yn gweithio mewn lleoliad ysgol ar hyn o bryd, a gwelwyd hefyd fod 24 achos o ddyblygu.

Dylid nodi bod ymatebion wedi'u derbyn yn ystod cyfnod cyfyngiadau Covid-19. Nid oedd goblygiadau lles pwysig y pandemig yn rhan o ffocws yr arolwg ac nid oedd yr un cwestiwn yn cyfeirio ato. Fodd bynnag, ni ddylid diystyru'r posibilrwydd bod yr ymatebion yn cael eu dylanwadu gan yr amgylchiadau eithriadol hyn.

Casglodd yr arolwg nifer o nodweddion ar gyfer pob ymatebwr at ddibenion dadansoddol ac mae'r rhain yn cael eu dadansoddi fel a ganlyn:


[1] Roedd yr arolwg ar agor i arweinwyr ysgolion ledled Cymru rhwng 15 Mai a 5 Mehefin 2020. Roedd yn cynnwys 13 cwestiwn yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol:

- Gwybodaeth gefndir
- Dealltwriaeth arweinwyr o 'Les'
- Ffactorau sy'n effeithio ar les
- Gwella lles a
- Sut gall yr Academi helpu


Lluniwyd yr arolwg yn defnyddio MS Forms a chafodd ei dreialu gan grŵp o tua 50 o arweinwyr ysgolion yn ardal Llanelli, cyn mynd yn fyw ledled Cymru.

[2] At ddibenion yr arolwg, cyfyngwyd ar y diffiniad o 'arweinydd ysgol' i'r rolau a restrir yn Siart 3 isod. Mae'r Academi Arweinyddiaeth yn amcangyfrif bod cyfanswm y boblogaeth o arweinwyr ysgolion yng Nghymru, o ddefnyddio'r diffiniad hwn, oddeutu 3500.


## Siart 1: Ymateb fesul lleoliad





## Siart 2: Ymateb fesul consortiwm




## Siart 3: Ymateb yn ôl rôl bresennol




## Siart 4: Ymateb yn ôl profiad o arweinyddiaeth



## Siart 5: Proffil oedran ymatebwyr





Dadansoddwyd data'r holl arolwg i nodi amrywiadau yn ôl y nodweddion allweddol hyn. Fodd bynnag, ni ddaethpwyd ar draws llawer o amrywiadau yn ôl ardal ddaearyddol, oedran, rôl neu leoliad ac yn bendant ni chafwyd rhai a oedd yn cynhyrchu unrhyw ganfyddiadau dibynadwy. Yn sgil hynny, mae dadansoddiad yn ôl nodweddion ymatebwyr wedi'i hepgor o'r adroddiad ar lefel crynodeb hwn.

## 3. Beth mae lles yn ei olygu i arweinwyr ysgolion yng Nghymru?

Gofynnwyd i ymatebwyr sgorio deg agwedd ar eu lles personol a phroffesiynol, o'r pwysicaf i'r lleiaf pwysig. Dyma'r pedair agwedd a dderbyniodd y sgoriau uchaf:

1. Teimlo'n hapus neu fodlon
2. Bod yn iach
3. Darparu ar gyfer eich teulu neu'r rhai sydd agosaf atoch chi
4. Gwneud gwahaniaeth positif i gydweithwyr neu fyfyrwyr

## Siart 6: Agweddau ar les o'r pwysicaf i'r lleiaf pwysig




Gofynnwyd i ymatebwyr nodi unrhyw agweddau eraill ar les a oedd yn bwysig iddynt. Nododd dadansoddiad thematig o'r ymatebion hyn yr agweddau canlynol ar les arweinwyr:


- Sicrhau cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith a digon o amser 'segur' (33% o ymatebion)
- Teimlo eich bod yn cael eich parchu a bod pobl yn ymddiried ynoch chi fel gweithiwr proffesiynol (12%)
- Rhoi eraill yn gyntaf (12%)

## 4. Pa ffactorau sy'n effeithio ar les arweinwyr ysgolion?

Yna, gofynnwyd i ymatebwyr fyfyrio ar ffactorau sy'n effeithio ar eu lles. Roedd y ffactorau a ddewiswyd amlaf, o restr o 14 opsiwn, fel a ganlyn:

1. Llwyth gwaith (a ddewiswyd gan 75% o ymatebwyr)
2. Mesurau atebolrwydd (61%)
3. Y broses arolygu (50%)
4. Materion staff a phersonél (49%)
5. Cyllid a rheoli cyllideb (45%)

## Siart 7: Ffactorau sy'n effeithio ar les arweinwyr




Yna, gofynnwyd i'r ymatebwyr roi rhesymau am eu dewisiadau. Yn sgil dadansoddiad thematig o'r ymatebion testun rhydd hyn, nodir y prif ffyrdd yr effeithiodd y ffactorau hyn ar les ymatebwyr fel a ganlyn:

- Cynyddu lefelau o straen a phryder
- Effeithio'n niweidiol ar berthnasoedd personol a bywyd teulu

Dewiswyd llwyth gwaith gan dri chwarter yr ymatebwyr, y nifer fwyaf o gryn dipyn. Hefyd, eglurodd mwyafrif yr ymatebwyr a ddewisodd 'fesurau atebolrwydd' a'r 'broses arolygu' fel ffactorau a oedd yn effeithio ar eu lles eu bod wedi eu dewis o ran yr effaith yr oedd y naill a'r llall yn ei chael ar *lwyth gwaith*.

Fodd bynnag, nododd lleiafrif sylweddol o ymatebion y diffyg cysylltiad roeddynt yn ei deimlo rhwng proses a chanlyniadau fel y rheswm dros ddewis y ffactorau hyn fel rhai a oedd yn cael effaith negyddol ar eu lles: eglurodd 17% o'r rhai a ddewisodd 'mesurau atebolrwydd' eu bod yn teimlo nad oedd mesurau o'r fath yn cyfrannu at ganlyniadau gwell i ddysgwyr, eglurodd 28% o'r rhai a ddewisodd y 'broses arolygu' eu bod yn teimlo nad oedd arolygu yn ychwanegu gwerth at daith gwella'r ysgol.

Mae'n werth nodi nad oedd 'datblygu'r cwricwlwm' ymysg y ffactorau hynny a ddewiswyd amlaf fel un a oedd yn effeithio ar les arweinwyr, ac roedd yn y 9fed safle o'r 13 ffactor.

## 5. Ffynonellau cymorth presennol

Yna, gofynnwyd i ymatebwyr ystyried ffyrdd y maent yn derbyn cymorth gyda'u lles ar hyn o bryd. Roedd y ffynonellau cymorth a ddewiswyd amlaf o restr fel a ganlyn:


- Cymorth gan gydweithwyr (dewiswyd gan 75% o ymatebwyr)
- Cymorth gan aelod o'r teulu (69%)
- Cymorth gan reolwr/arweinydd yn y gweithle (35%)

Gallai fod yn arwyddocaol mai'r ffynonellau cymorth a ddewiswyd anamlaf, oedd y rhai y gellid eu galw gyda'i gilydd yn 'ymyriadau neu wasanaethau allanol', sef:

- Cymorth gan awdurdod lleol/consortiwm addysg rhanbarthol (17%)
- Cymorth drwy hyfforddi/coetsio (15%)
- Cymorth gan wasanaeth cwnsela pwrpasol (13%)

Mae hyn yn awgrymu nad yw mwyafrif llethol y cymorth ar gyfer lles sy'n cael ei ddefnyddio gan arweinwyr ysgolion yng Nghymru, er yn elfen werthfawr iawn ac allweddol o gymorth effeithiol yn fwy cyffredinol, yn dod gan weithwyr proffesiynol sydd wedi'u hyfforddi ym maes hyfforddi a coetsio, goruchwylio, cwnsela hwyluso, iechyd meddwl ac ati; hynny yw - a gan gyfeirio'n benodol iawn at les – mae'r cymorth a ddefnyddir ar hyn o bryd yng Nghymru yn bennaf yn gyngor nad yw'n arbenigol.

## Siart 8: Ffynonellau cymorth lles presennol




Yna, gofynnwyd i ymatebwyr ddisgrifio'r prif ffyrdd mae ffynonellau cymorth ar gyfer eu lles yn fuddiol. Yr ymatebion a nodwyd amlaf mewn dadansoddiad thematig o'r ymatebion testun rhydd oedd bod ffynonellau cymorth yn cael eu gwerthfawrogi oherwydd eu bod yn gwneud:

- Yn cynnig yr amser a'r gofod i brosesu sefyllfaoedd a heriau (38%%)
- Yn darparu amgylchedd diogel a chefnogol (34%)
- Yn rhoi'r synnwyr bod arweinwyr yn cael eu deall / yn ffynhonnell empathi (29%)

## 6. Beth arall all yr Academi Arweinyddiaeth ei wneud i gefnogi lles arweinwyr?

Daeth yr arolwg i ben drwy ofyn i ymatebwyr sut y gallai'r Academi Arweinyddiaeth gefnogi lles arweinwyr ysgolion yng Nghymru. Dyma'r meysydd blaenoriaeth y teimlai'r gyfran fwyaf o ymatebwyr y gallai'r Academi Arweinyddiaeth eu helpu gyda nhw:

- Darparu (neu annog darpariaeth) datblygu a dysgu proffesiynol i gefnogi lles arweinwyr
- Darparu (neu annog darpariaeth) mentora, hyfforddi/coetsio, cwnsela neu oruchwyliaeth
- Sicrhau bod llais arweinwyr yn cael ei glywed o ran eu lles
- Creu gofodau ar gyfer arweinwyr fel y gallant siarad am eu profiadau gyda'i gilydd
- Eirioli dros newid mewn meysydd polisi ac ymarfer y nodwyd eu bod yn effeithio ar les arweinwyr, gan gynnwys llwyth gwaith, atebolrwydd ac arolygu

Er bod y cwestiwn hwn yn gofyn i ymatebwyr ganolbwyntio'n benodol ar rôl yr Academi Arweinyddiaeth, mae'n fuddiol gwybod bod llawer o'r hyn y mae arweinwyr yn ei ddweud y byddent yn ei werthfawrogi fel ffyrdd a fyddai'n cefnogi eu lles ymhellach yn ymyriadau a gwasanaethau allanol, ac mai lleiafrif yr arweinwyr sy'n manteisio ar y rhain ar hyn o bryd (gweler 5. Ffynonellau cymorth presennol, uchod).

Mae hyn yn awgrymu nad oes digon o gyfleoedd fel hyn ar gael ledled Cymru ar hyn o bryd (unwaith eto, nid oedd amrywiad daearyddol sylweddol yn yr ymatebion), neu o leiaf fod yna brinder cyfleoedd y mae arweinwyr yn eu hystyried yn rhai sy'n *hygyrch* iddynt, naill ai o ran eu hansawdd, cost, gwerth am arian tybiedig neu ffactor arall neu gyfuniad o ffactorau eraill. Dylai hyn fod yn ffocws sylw ac ymchwil pellach ar gyfer yr Academi Arweinyddiaeth, ei bartneriaid haen ganol a Llywodraeth Cymru.

Awduron yr Adroddiad:

Ian Gerrard
Cydymaith yr Academi Arweinyddiaeth a Phennaeth, Ysgol Aberconwy

Chris Lewis
Cyfarwyddwr Polisi Cynorthwyol, Ymchwil a Chynllunio'r Gweithlu yn Strategol

Am wybodaeth am waith yr Academi Arweinyddiaeth ar les arweinwyr addysgol, ewch i'n gwefan neu e-bostiwch post@agaa.cymru

Academi Genedlaethol ar gyfer
Arweinyddiaeth Addysgol Cymru
National Academy for
Educational Leadership Wales

agaa.cymru | nael.cymru